**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1213
Ein cyf/Our ref JJ/11674/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd - Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

21 Hydref 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Medi ynghylch deiseb P-06-1213: Dylid gwahardd defnydd hamdden o Seadoo/sgïo jet yng Nghymru. Ac eithrio mewn ardaloedd dynodedig a reolir yn llym

Yr wyf yn rhannu eich pryderon am ddiogelwch pobl mewn mannau cyhoeddus fel traethau, a bod ein cynefinoedd naturiol a'n bywyd gwyllt mewn perygl oherwydd effeithiau cynyddol llygredd a'r newid yn yr hinsawdd. O dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae'n drosedd tarfu'n fwriadol neu'n ddi-hid ar rywogaethau morol fel dolffiniaid a morfilod. Gellir ystyried a chymhwyso mesurau rheoli ar gyfer Ardaloedd Gwarchod Morol Cymru lle mae risg amlwg o fygythiadau.

Yr wyf yn ymwybodol y bu cynnydd diweddar mewn adroddiadau gan aelodau o'r cyhoedd o aflonyddwch i fywyd gwyllt morol a achosir gan gerbydau hamdden yng Nghymru. Mae gan awdurdodau lleol y pŵer i reoleiddio goryrru a gyrru sy'n niwsans drwy is-ddeddfau a'r pŵer i ddirwyo'r rhai sy'n torri'r rheolau, er fy mod yn cydnabod efallai na fydd hyn yn ddigon i atal lleiafrif anghyfrifol o ddefnyddwyr jet-sgïau rhag ymddwyn yn fyrbwyll.

Efallai eich bod yn ymwybodol bod Adran Drafnidiaeth y DU wedi lansio ymgynghoriad (https://www.gov.uk/government/consultations/strengthening-enforcement-of-the-dangerous-use-of-recreational-and-personal-watercraft) ar atgyfnerthu'r gwaith o orfodi cyfreithiau diogelwch ar gyfer gwaith hamdden a dŵr personol a ddylai fod yn fwy o rwystr i'r rhai a allai ddefnyddio jet-sgïau mewn modd peryglus.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.